# Pryniant arfaethedig Dŵr Cymru Cyfyngedig gan Glas Cymru Cyfyngedig

Papur ymgynghori gan Ofwat

Tachwedd 2000

# CYNNWYS


**1. CRYNODEB**

Cyflwyniad
Dyletswyddau Cyfarwyddwr Cyffredinol Gwasanaethau Dŵr Cefndir
Materion i'w hystyried
Dadansoddiad cychwynnol Ofwat o gynigion Glas

**2. FFRAMWAITH AR GYFER CYFUNO A THREFNIADAU STRWYTHUROL NEWYDD YN Y DIWYDIANT DŴR**

Mentrau newydd
Cyfuno cwmnïau dŵr

**3. PRYNIANT GLAS**

Y pryniant arfaethedig
Addasiadau arfaethedig i'r drwydded

**4. MATERION ALLWEDDOL I'W HYSTYRIED**

Manteision a pheryglon i gwsmeriaid
Ymgynghori â chwsmeriaid
Newid perchenogaeth
Cymhellion i effeithlonrwydd
Trefniadau cyfansoddiadol
Sicrhau gwasanaethau
Gwybodaeth gymharol
Addasiadau ychwanegol i'r drwydded a geisir gan Glas

**5. Y CAMAU NESAF**

**Atodiadau**

Atodiad A
- Crynodeb o'r addasiadau arfaethedig i'r drwydded (a gofynion eraill)

# 1. CRYNODEB

## Cyflwyniad

1. Mae'r papur hwn yn amlinellu'r materion a godir gan bryniant arfaethedig y cyfleustod dŵr rheoledig, Dŵr Cymru Cyfyngedig (Dŵr Cymru) gan Glas Cymru Cyfyngedig (Glas). Cyhoeddwyd hyn ddydd Gwener 3 Tachwedd. Mae'r cynigion yn golygu ailstrwythuro Dŵr Cymru ac mae angen i gynigion o'r fath gael eu clirio o ran rheoleiddiad. Mae Ofwat yn gwahodd sylwadau pawb sydd â diddordeb ar y cynigion hyn ac yn enwedig gofynnir am sylwadau ynghylch a ydyw'r addasiadau i'r Drwydded a amlinellir yn y papur hwn yn ddigonol i warchod buddiannau cwsmeriaid.

2. Mae Adran 2 y papur hwn yn amlinellu fframwaith cyffredinol Ofwat ar gyfer ystyried cynigion, fel y rheini a wnaed gan Glas, i ailstrwythuro'r cwmnïau dŵr yng Nghymru a Lloegr. Mae'r adran hon hefyd yn ystyried cwestiynau sy'n gysylltiedig â chyfuno cwmnïau dŵr. Mae Adran 3 yn amlinellu manylion cynnig Glas. Mae Adran 4 yn ystyried y materion rheoleiddio sy'n codi.

## Dyletswyddau Cyfarwyddwr Cyffredinol Gwasanaethau Dŵr

3. Wrth ystyried y materion a godir gan y cynigion, rhaid i Gyfarwyddwr Cyffredinol Gwasanaethau Dŵr (y Cyfarwyddwr) gofio'i ddyletswyddau fel y'u hamlinellir yn Neddf y Diwydiant Dŵr 1991 (y Ddeddf Dŵr). Rhaid iddo sicrhau fod cwmnïau'n cyflawni'u swyddogaethau'n iawn ac y gallant ariannu darpariaeth briodol y gwasanaethau hynny. Mae ganddo ddyletswydd hefyd i warchod cwsmeriaid. Mae ganddo ddyletswyddau pellach i hybu effeithlonrwydd a darbodaeth gan y busnes rheoledig; i sicrhau fod cwmnïau'n hyrwyddo defnydd effeithlon o ddŵr gan gwsmeriaid a rhai dyletswyddau amgylcheddol. Mae gan y Cyfarwyddwr ddyletswyddau hefyd i hwyluso cystadleuaeth am ddarparu gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth a dileu ymddygiad gwrth-gystadleuol yn y diwydiant dŵr. Cryfhawyd y pwerau hyn yn ddiweddar gan y Ddeddf Gystadleuaeth (1998).

## Cefndir

4. Cymerwyd camau sylweddol ymlaen i wella effeithlonrwydd y diwydiant dŵr dan y model presennol sy'n eiddo'r buddsoddwyr gyda chyllid soddgyfrannau, model a sefydlwyd adeg preifateiddio. Mae hyn yn rhoi cymhellion i'r rheolwyr drwy bwysau'r cyfranddalwyr. Byddai angen cynnig rhesymau da i gyfiawnhau newid y model hwn. Serch hynny, gallai strwythurau newydd gynnig potensial ar gyfer enillion pellach. Ochr yn ochr â gwaith i ddatblygu cystadleuaeth pris yn y diwydiant, mae cwmnïau ac eraill yn ystyried ffurfiau strwythurol newydd y gellid eu sefydlu o fewn y drefn ddeddfwriaethol a rheoleiddiol bresennol. Mae'r mentrau hyn yn cynnwys dadfwndelu'r gweithgareddau angenrheidiol i redeg busnes dŵr, er enghraifft gwahanu perchenogaeth asedau oddi wrth gyflwyniad y gwasanaeth, a chyflwyno strwythurau perchenogaeth newydd. Mae pleidwyr y mentrau hyn yn hawlio y bydd dadfwndelu'r gweithgareddau hyn yn galluogi cwmnïau i adnabod a rheoli costau'n well ac yn eu gorfodi i wynebu pwysau

cystadleuaeth uniongyrchol lle bo hynny'n ymarferol. Haerir hefyd y bydd y strwythurau trefniadaethol newydd yn galluogi defnyddio adnoddau'n well ac yn caniatáu ystyried amrediad ehangach o opsiynau cyllido.

5. Mae Ofwat yn croesawu cynigion newydd sy'n ceisio gwella effeithioldeb ac effeithlonrwydd y cwmnïau dŵr. Nid yw'n coleddu unrhyw farn benodol ynghylch y ffurfiau neu'r strwythurau y gellid eu mabwysiadu. Fodd bynnag, rhaid i Ofwat fod yn fodlon y gwarchodir buddiannau cwsmeriaid ac na niweidir ei allu i gyflawni'i ddyletswyddau.

6. Yn gynharach eleni cyhoeddodd Ofwat ddogfen ymgynghori, *New ownership structures in the Water Industry* (6 Mehefin 2000). Edrychai hon yn gyffredinol ar y materion cyfansoddiadol a rheoleiddiol a godai o wahanu meddiant asedau (yn cynnwys y drwydded) oddi wrth weithrediadau, ynghyd ag effaith strwythurau perchenogaeth newydd, gan gynnwys cwmni cyfyngedig drwy warant. Roedd nifer o'r materion hyn yn berthnasol i bryniant Hyder ccc gan Western Power Distribution Ltd ('WPD'); sef yn benodol y materion yn ymwneud â gwahanu perchenogaeth asedau Dŵr Cymru oddi wrth weithrediadau a'r trefniadau arfaethedig ar gyfer darparu gwasanaeth. Amlinellwyd y rhain ym mhapur ymgynghorol Ofwat ar gynnig WPD am Hyder ccc, *The proposed take-over of Hyder plc by Western Power Distribution* (6 Mehefin 2000).

7. Yn ddiweddar, ymgynghorodd Ofwat ar y cynigion ailstrwythuro a gynigiwyd gan y Kelda Group ('Kelda') yn *The proposed restructuring of the Kelda Group* (20 Mehefin 2000). Roedd y cynnig yn cynnwys cynlluniau i wahanu asedau Yorkshire Water Services Ltd oddi wrth ei weithrediadau a chreu corff o eiddo'r cwsmeriaid i brynu'r asedau hyn. Buasai'r corff cwsmeriaid hwn wedi'i ariannu drwy ddyled 100%.

8. Wedi ymgynghori, cyhoeddodd Ofwat asesiad rhagarweiniol o gynigion Kelda, *The proposed restructuring of the Kelda Group – a preliminary assessment by the Director General of Water Services* (25 Gorffennaf 2000), a ddyfynnai hefyd ymatebion i'r materion a godwyd mewn ymgyngoriadau cynharach. Amlinellodd y papur hwn y gofynion rheoleiddiol a'r pryderon y byddai'n rhaid rhoi sylw iddynt cyn y gellid ystyried cydsynio i unrhyw gynnig ailstrwythuro diwygiedig. Dyma'r meini prawf perthnasol o hyd ar gyfer asesu cynigion tebyg, fel y rheini gan Glas.

9. Mae cynigion Glas yn wahanol i gynigion Kelda mewn ambell agwedd bwysig. Yn arbennig, mae Ofwat yn cydnabod na fyddai cwsmeriaid yn troi'n berchnogion dan y cynigion hyn gan mai cwmni cyfyngedig drwy warant, nid corff cydfuddiannol, yw'r cerbyd perchenogaeth a gynigir. Fodd bynnag, rhaid i'r Cyfarwyddwr fod yn fodlon fod y meini prawf perthnasol wedi'u cyflawni.

10. Mae Glas wedi amlinellu sut y mae'n credu y mae ei gynigion yn cwrdd â'r gofynion hyn mewn llythyr agored at y Cyfarwyddwr. Cyhoeddwyd hwn ar yr un pryd ag y cyhoeddodd ei fwriad i brynu Dŵr Cymru (ar gael ar wefan Glas Cymru – www.glascymru.com)

## Materion i'w hystyried

11. Mae pryniant arfaethedig Glas yn codi ystyriaethau pwysig i gwsmeriaid a chwestiynau rheoleiddiol i Ofwat. Fel y nodwyd uchod, mae llawer o'r cwestiynau hyn yn debyg i'r rhai a godwyd yn achos Kelda. Amlinellir y cwestiynau i Ofwat a'r cwsmeriaid, y mae Ofwat yn ceisio barn arnynt, yn adrannau 3 a 4 y papur ymgynghori hwn. Er hwylustod, dyma grynodeb o'r cwestiynau:

**a) A ydyw cynigion Glas yn ateb y gofynion rheoleiddiol ar gyfer cynigion ailstrwythuro a amlinellwyd gan Ofwat yn dilyn ei ymgynghoriad ar ailstrwythuro arfaethedig y Kelda Group? Yn enwedig:**

**(i) Yn absenoldeb pwysau gan gyfranddalwyr, a gedwir cymhellion dros effeithlonrwydd dan y cynigion hyn? A yw'r strwythur arfaethedig yn sicrhau y bydd gan Glas ffocws masnachol digonol i yrru perfformiad yn y busnes rheoledig?**

**(ii) Oes yna beryglon a manteision i gwsmeriaid yng nghynigion Glas nad ydynt yn bresennol yn y model cyfranddalwyr cyfredol? Dan gynigion Glas, a oes gwarchodaeth ddigonol i gwsmeriaid rhag ymgymryd â pheryglon ychwanegol? Yn arbennig, a yw'r adnoddau wrth gefn a gynigir gan Glas yn ddigonol i gwrdd ag unrhyw siociau costau arwyddocaol cysylltiedig â swyddogaethau cwmni dŵr?**

**(iii) A Glas yn bwriadu mynd at ffynhonnell allanol i sicrhau gweithredu asedau Dŵr Cymru a darparu gwasanaethau cwsmeriaid, a fydd rheolwyr Dŵr Cymru'n cadw rheolaeth ddigonol i gwrdd â'i ddyletswyddau statudol, yn enwedig o ran sicrhau na pheryglir ansawdd dŵr yfed a'r amgylchedd?**

**(iv) A gyfaddawdir gallu'r Arolygwyr Dŵr Yfed (DWI) ac Asiantaeth yr Amgylchedd (AyrA) i erlyn am fethiannau i gwrdd â safonau ansawdd dŵr ac amgylcheddol dan y cynigion hyn?**

**(v) A ydyw cynigion Glas ar gyfer ymgynghori â chwsmeriaid yn ddigon o gofio'i fwriad i gyflwyno math newydd o berchenogaeth i'r busnes rheoledig?**

**(vi) A ydyw Glas yn gwbl annibynnol ar Hyder ccc a WPD?**

**b) A yw'r broses a amlinellir gan Glas ar gyfer penodi aelodau i Glas yn ddigon cryf i atal unrhyw grŵp buddiannau arbennig rhag 'rhwydo' yr aelodaeth? A fydd digon o gymhellion i aelodau Glas i ddal Bwrdd Dŵr Cymru i gyfrif?**

**c) Fel gydag unrhyw gyfuno neu bryniant arall, mae angen bodloni'r Cyfarwyddwr fod darpar berchenogion yn ddigon gonest a galluog yn weithredol ac ariannol i ymgymryd â'r rôl honno ac felly gofynnir am sylwadau parthed a yw Glas yn berchennog addas a phriodol ar Dŵr Cymru.**

**ch) A yw'r pecyn o addasiadau trwydded a gynigiwyd gan y Cyfarwyddwr yn ddigon i warchod buddiannau cwsmeriaid? A ddylid gofyn am ragor o addasiadau i'r drwydded?**

**d) A ddylai'r Cyfarwyddwr gydsynio i'r addasiadau pellach i'r drwydded a geisir gan Glas?**

## Dadansoddiad cychwynnol Ofwat o gynigion Glas

12. Mae'r Cyfarwyddwr wedi amlinellu fframwaith ar gyfer asesu cynigion i ailstrwythuro cwmnïau dŵr. Asesir pob achos yn ôl ei deilyngdod yn erbyn y fframwaith hwn. Mae pob un yn debygol o fod yn wahanol ac ni ddylid edrych ar unrhyw un achos fel patrwm i'r lleill. Mae'r Cyfarwyddwr wedi cynnal trafodaethau buddiol gyda Glas. Mae o'r farn fod Glas wedi ceisio ymateb i'w bryderon o fewn cyfyngiadau'r model o gwmni cyfyngedig drwy warant a ariennir drwy ddyled.

13. Y cwestiynau allweddol yw a ragfernir buddiannau cwsmeriaid drwy symud oddi wrth y model cyfredol sy'n eiddo'r buddsoddwyr gyda chyllid soddgyfrannau, ac a oes unrhyw fuddiannau i'r cwsmeriaid i wneud iawn am hynny. Ar yr ochr bositif, os gall Glas dalu am ei gynigion, mae potensial ar gyfer costau ariannu is yn deillio o gost cyfalaf is a fyddai'n arwain, a phopeth arall yn gyfartal, at filiau is. Hefyd, mae Glas yn cyfeirio at fanteision cael perchennog sydd â'i unig ddiddordeb yn y busnes o ddarparu gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth. Yn erbyn hyn mae'r pryder y gall absenoldeb pwysau gan gyfranddalwyr wanhau cymhellion dros effeithlonrwydd. Ar ddiwedd y dydd, perfformiad Dŵr Cymru dan berchenogaeth Glas fyddai'r prawf o hyn.

14. Heb glustog soddgyfrannau, bydd angen adnoddau sylweddol a strwythuredig wrth gefn i wrthweithio perygl digwyddiadau croes annisgwyl. Mae'r cynllun ariannu wrth wraidd cynigion Glas yn allweddol felly ac i raddau helaeth mae'n dibynnu ar yr asesiad ansawdd credyd a wneir gan yr asiantaethau statws credyd ar y benthyciadau a gymerir gan Glas. Amcan y benthyciadau hyn fydd ariannu pryniant cychwynnol Dŵr Cymru a'i raglen gyfalaf barhaus. Mater i'r marchnadoedd ariannol, yn wyneb sylwadau'r asiantaethau statws credyd ymhlith ffactorau eraill, fydd a ddylid darparu'r cymorth ariannol angenrheidiol i weithredu cynigion Glas, ac ar ba delerau. Bwriada Ofwat addasu trwydded Dŵr Cymru i fynnu ei fod yn cadw statws credyd corfforaethol o radd buddsoddiad.

15. Mae sylwadau'r ymatebwyr ar y cwestiynau a godwyd yn allweddol a byddant yn sail i asesiad terfynol y Cyfarwyddwr maes o law. Ar hyn o bryd, ei asesiad cychwynnol yw nad yw cynigion Glas, ar y cyfan, yn codi unrhyw faterion na ellir eu goresgyn, ar yr amod y gellir gweithredu'r pecyn o addasiadau trwydded yn llawn a sicrhau'r statws gradd buddsoddiad priodol.

**Byddai Ofwat yn croesawu sylwadau partïon â diddordeb ar y dadansoddiad cychwynnol hwn.**

## 2. FFRAMWAITH AR GYFER CYFUNO A THREFNIADAU STRWYTHUROL NEWYDD YN Y DIWYDIANT DŴR

### Mentrau newydd

16. Amcan pwysig gan reoleiddiad seiliedig ar gymhellion yw annog dyfeisgarwch wrth anelu am fwy o effeithlonrwydd. Cwblhawyd enillion effeithlonrwydd sylweddol dan y strwythur sydd wedi bodoli yn y diwydiant ers preifateiddio. Byddai angen rhesymau da i gefnogi modelau gwahanol. Serch hynny, gall strwythurau newydd gynnwys potensial ar gyfer enillion pellach. Yn ddiweddar bu'r Llywodraeth yn ymgynghori ar nifer o ddiwygiadau posibl i gyflwyno mwy o gystadleuaeth yn narpariaeth gwasanaethau carthffosiaeth a chyflenwadau dŵr. Mae gwaith ar y rhain yn mynd rhagddo. Ar yr un pryd, mae cwmnïau dŵr ac eraill yn ystyried ffurfiau strwythurol newydd y gellid eu gweithredu o fewn y drefn ddeddfwriaethol a rheoleiddiol sy'n bodoli. Mae hyn, yn rhannol, yn adlewyrchu pwysau a grëwyd gan ddiwygiadau 1999 i derfynau prisiau.

17. Mae mentrau o'r fath yn cynnwys dadfwndelu pellach ar y gweithgareddau sy'n gynwysedig mewn busnesau dŵr a charthffosiaeth a chyflwyno strwythurau perchenogaeth newydd. Mae'r rhai sy'n dadlau dros hyn yn hawlio y bydd y camau hyn yn eu galluogi i adnabod a rheoli costau'n well ac yn eu hagor lle bo'n ymarferol i bwysau cystadleuaeth uniongyrchol. Dywedant y bydd y strwythurau trefniadaethol a chyfreithiol newydd yn hwyluso defnydd mwy effeithiol ar adnoddau a mynediad at amrediad ehangach o ddewisiadau ariannu.

18. Mae Ofwat yn croesawu cynlluniau newydd sy'n anelu at wella effeithioldeb ac effeithlonrwydd y cwmnïau dŵr. Nid oes gan Ofwat unrhyw ragfarnau na syniadau parod am y ffurfiau neu'r strwythurau y gellid eu mabwysiadu. Fodd bynnag, rhaid i Ofwat fod yn fodlon na ragfernir buddiannau cwsmeriaid ac nad amherir ar ei allu i gyflawni'i waith. Er mwyn tryloywder rheoleiddiol, ymddengys mai priodol fyddai amlinellu'r egwyddorion cyffredinol a fydd wrth wraidd ymateb Ofwat i unrhyw gynigion ailstrwythuro sy'n gofyn am ei ganiatâd, neu y gofynnir ei gyngor arnynt gan adrannau eraill o'r Llywodraeth neu asiantaethau rheoleiddio eraill.

19. Yn asesiad cychwynnol Ofwat o gynigion Kelda (25 Gorffennaf 2000), amlinellodd Syr Ian Byatt, y Cyfarwyddwr ar y pryd, yr egwyddorion y dylid eu dilyn gan unrhyw gynigion ar gyfer trosglwyddo asedau dŵr a charthffosiaeth rheoledig i endid dim-elw a chontractio-allan weithrediad yr asedau hyn i ddarparwyr gwasanaeth trydydd parti. Mae'r Cyfarwyddwr cyfredol o'r farn y dylai'r egwyddorion hyn fod yn wir am unrhyw gynigion tebyg a roddir ger bron gan gwmnïau dŵr. Yn ei hanfod, bydd y fframwaith rheoleiddio tymor canolig seiliedig ar gymhellion yn parhau. Bydd pob cwmni dŵr, waeth beth fo'u strwythurau, yn destun rheoleiddiad RPI-X a chystadleuaeth gymharol.

20. O ran strwythurau perchenogaeth newydd, mae'r Cyfarwyddwr yn arbennig o awyddus i sicrhau na phylir cymhellion effeithlonrwydd, drwy golli pwysau cyfranddalwyr (yn cynnwys bygythiad cymryd drosodd) neu brynu dylanwad gormodol gan fuddiannau adrannol. Fel a drafodir yn y papur hwn, bydd yn rhaid

i Ofwat benderfynu, wedi'r ymgynghoriad hwn, a yw'r cynigion presennol gan Glas yn cydymffurfio â'r gofynion hyn.

21. O ran cynigion sy'n cadw'r model cyfranddalwyr, ond eto'n golygu gwahanu gweithrediad oddi wrth berchenogaeth yr asedau, bydd Ofwat yn ceisio sicrhau na chyfaddawdir gallu deiliad y drwydded i arfer rheolaeth effeithiol dros ei asedau. Bydd Ofwat yn ceisio sicrhau na chollir hawliau mynediad at wybodaeth ac na niweidir ei allu i weithredu gorfodaeth yn effeithiol. Bydd angen i Ofwat fod yn fodlon y sefydlir perthynasau contractio priodol a bod y rhain yn agored i bwysau cystadleuaeth. At hynny, rhaid i'r trefniadau contract beidio â chyfaddawdu gallu'r rheoleiddwyr ansawdd perthnasol, sef y DWI ac AyrA, i erlyn mewn achosion o lygru ansawdd dŵr a'r amgylchedd. Ni ellir rhagdybio o gwbl y byddai'r holl gostau a godai dan gontractau o'r fath yn cael eu pasio drwodd i gwsmeriaid ar ôl yr adolygiad nesaf o derfynau prisiau gan y bydd y drefn gymharol a seiliedig ar gymhellion yn dal mewn grym. Bydd y meini prawf hyn yr un mor berthnasol i gynigion yn ymwneud â gwahanu dan berchenogaeth gyffredin a gwahanu lle ceir newid perchenogaeth

22. Gall rhai cynigion ailstrwythuro anelu at leihau cost cyfalaf y cwmnïau dŵr, drwy ddefnyddio lefelau uwch o fenthyciadau a thechnegau ariannu eraill. Bydd Ofwat yn awyddus i sicrhau fod y fath strwythurau'n rhesymol sefydlog ac nad ydynt yn bygwth gallu'r cwmni dŵr i ariannu'i swyddogaethau. Rhaid iddynt beidio ychwaith gynyddu'r perygl i gwsmeriaid heb o leiaf fanteision cymesur. Cred Ofwat y dylai fod yn ofynnol i gwmnïau dŵr gynnal statws credyd gradd buddsoddiad ac y dylid eu gwahardd rhag gwneud trefniadau sy'n cynnwys darpariaethau gwrth-ddiffygdalu. Nid yw dyletswyddau Ofwat i sicrhau y gall cwmnïau ariannu'u swyddogaethau'n golygu fod angen iddo edrych yn uniongyrchol ar fuddiannau benthycwyr. Disgwylir i fenthycwyr gael pa bynnag warchodaeth iddynt eu hunain ag a fo'n angenrheidiol yn eu tyb hwy. Fodd bynnag, rhaid i'r rhain beidio â llyffetheirio gallu cwmni dŵr i gyflawni'i swyddogaethau, gan gynnwys gwneud y buddsoddiad newydd angenrheidiol i gwrdd â safonau amgylcheddol neu i gynnal neu wella ansawdd cyflenwad a gwasanaeth.

## Cyfuno cwmnïau dŵr

23. Mewn achosion lle mae bwriad i gyfuno busnesau dau neu ragor o gwmnïau dŵr, neu gyfuno cwmni dŵr ac endid sy'n darparu gwasanaethau arwyddocaol i un neu ragor o gwmnïau dŵr eraill, bydd Ofwat yn wyliadwrus rhag y potensial i golli gwybodaeth gymharol. Yn amlwg, gellir cyfeirio'r achosion hyn i'w hymchwilio gan y Comisiwn Cystadleuaeth, yn unol â gofynion Adran 32 Deddf y Diwydiant Dŵr 1991. Bydd Ofwat yn dal i farnu y byddai cyfuno cwmnïau dŵr cyfain yn andwyol i'r fframwaith rheoleiddio lle byddai hynny'n arwain at golli gwybodaeth gymharol. Mewn achosion eraill bydd Ofwat am gael ei fodloni fod potensial arwyddocaol i wella pethau i gwsmeriaid.

24. Mewn achosion o gyfuno busnes rheoledig cwmni dŵr ag endid nad yw'n ymwneud â'r sector dŵr, nid yw Ofwat yn gyffredinol o'r farn y ceid colled arwyddocaol o wybodaeth gymharol. Ystyrid achosion o'r fath dan gyfraith gyfuno gyffredinol dan Ddeddf Masnachu Teg 1973.

## 3. PRYNIANT GLAS

### Y pryniant arfaethedig

25. Ar 3 Tachwedd 2000 cyhoeddodd byrddau Glas a WPD eu bod wedi dod i gytundeb, yn amodol ar gontract, ar delerau i Glas brynu Dŵr Cymru oddi wrth WPD. Mae'r pryniant yn gosod gwerth Dŵr Cymru ar £1.8bn (yn cynnwys dyled). Dyma oddeutu 95% o werth cyfalaf rheoleiddiol Dŵr Cymru. Ariennir y pryniant bron yn gyfangwbl drwy ddyled. Mae'r cynnig yn rhagweld y bydd swm o dâl gohiriedig y disgwylir ei dalu i WPD erbyn 31 Mawrth 2005 fan hwyraf. Ni fyddai difidend yn daladwy ar y tâl gohiriedig hwn, ond byddai'r swm a delid yn dibynnu ar berfformiad Dŵr Cymru yn y cyfnod hyd at 2005.

26. Yn ddiweddar cymerodd WPD feddiant ar Hyder ccc, grŵp aml-gyfleustod sy'n cynnwys Dŵr Cymru a Thrydan De Cymru ccc (Cyflenwr Trydan Cyhoeddus) ill dau. Mae Dŵr Cymru yn ymgymerwr dŵr a charthffosiaeth trwyddedig a reoleiddir gan y Cyfarwyddwr.

27. Ar y cyd â'i gyhoeddiad, cyhoeddodd Glas nifer o ddogfennau'n amlinellu manylion ei gynigion. Mae'r rhain yn cynnwys dogfen gyhoeddus yn amlinellu cynlluniau Glas ar gyfer Dŵr Cymru a llythyr agored at y Cyfarwyddwr sy'n amlinellu sut y mae Glas yn bwriadu ateb y pryderon rheoleiddiol a godwyd yn gynharach gan Ofwat yng nghyd-destun cynigion ailstrwythuro eraill. Tra'u bod yn amlwg yn mynegi safbwyntiau Glas, mae'r dogfennau hyn yn darparu gwybodaeth gefndir ddefnyddiol i'r cynigion.

28. Dan y cynigion, byddai Glas yn gweithredu strategaeth sy'n gwahanu perchenogaeth asedau Dŵr Cymru (ynghyd â chyfrifoldebau dan y Drwydded) oddi wrth ei weithrediadau. Os bydd Glas yn prynu Dŵr Cymru, cynigir y bydd Glas yn gweithredu strategaeth brynu lle bydd Dŵr Cymru'n parhau i roi gweithrediad ei asedau a darpariaeth gwasanaethau cwsmeriaid allan i ddarparwyr gwasanaethau arbenigol trydydd-parti dan gontractau masnachol cystadleuol o wahanol delerau, cymysgedd, hyd a math. Mae Ofwat yn deall y bydd y rhan fwyaf o'r ail-dendro yma wedi'i gwblhau cyn yr adolygiad cyfnodol nesaf.

29. Yn y cyfamser mae Ofwat yn deall tra bod WPD yn dal i fod yn berchen ar Ddŵr Cymru, bod WPD gyda chytundeb Glas yn bwriadu rhoi dau neu dri chontract mawr a enillwyd yn gystadleuol ar gyfer darparu'r gwasanaethau hyn i Ddŵr Cymru.

30. Mae perchenogaeth gan Glas yn cynrychioli ffurf newydd ar strwythur corfforaethol i'r busnes dŵr rheoledig. Mae'n cyflwyno strwythur ariannu wedi'i gyfeirio at leihau cost cyfalaf ar gyfer y busnes hwnnw – dan gynigion Glas byddai asedau rheoledig Dŵr Cymru'n cael eu hariannu'n gyfangwbl gan ddyled. Ag yntau heb ddim cyfranddalwyr, ni fydd raid i Glas dalu unrhyw ddifidendau.

31. Ar ffurf bondiau y bydd y ddyled newydd a gyhoeddir gan Ddŵr Cymru ar ran Glas i raddau helaeth. Mae Ofwat yn deall fod angen statws credyd o ansawdd uchel (categori 'A') ar gyfer y bondiau hyn er mwyn i Glas sicrhau'r gost gyfalaf

is sy'n sylfaenol i'w gynlluniau ariannol. Asesir y statws credyd gan yr asiantaethau statws credyd sy'n ystyried risgiau busnes ac ariannol cwmnïau.

32. Mae Glas yn gwmni newydd a ffurfiwyd ym mis Mawrth 2000 gyda'r unig ddiben o brynu a chael meddiant ar Ddŵr Cymru. Mae Glas yn gwmni cyfyngedig trwy warant a gorfforwyd dan Ddeddf Cwmnïau 1985. Mae cyfansoddiad cwmni o'r fath yn caniatáu am gorff o aelodau y bydd bwrdd Glas yn atebol iddynt yn y lle cyntaf. Rhoddir manylion pellach ar gyfansoddiad Glas yn Adran 4 dan y pennawd 'trefniadau cyfansoddiadol'.

33. Mae'r cynigion ailstrwythuro a amlinellwyd gan Glas yn codi nifer o gwestiynau pwysig. Mae'r model presennol sydd ym mherchenogaeth buddsoddwyr ac wedi'i ariannu drwy soddgyfrannau wedi dod ag elw mawr i gwsmeriaid ac i'r amgylchedd ac wedi arwain at gwmnïau dŵr mwy effeithlon. O ganlyniad i Benderfyniadau Terfynol 1999, gostyngwyd prisiau tra'n caniatáu parhad rhaglen fawr i wella'r amgylchedd.

34. Bydd ar Ofwat eisiau deall pa fanteision i gwsmeriaid a geir dan gynigion Glas ac a ydynt wedi'u gwarchod yn ddigonol, yn absenoldeb perchenogaeth soddgyfranddalwyr, rhag ymgymryd â risg ychwanegol. Bydd ar Ofwat eisiau bod yn siwr hefyd, yng ngolau cynigion ar gyfer contractio'i weithrediadau allan, y bydd Dŵr Cymru'n cadw rheolaeth ddigonol dros ddarpariaeth gwasanaethau. Rhaid i Ddŵr Cymru ddal i fedru cwrdd â'i holl ddyletswyddau statudol a thrwyddedol, gan gynnwys ei gyfrifoldeb dros ansawdd dŵr yfed a safonau amgylcheddol.

35. Byddai angen i'r cynigion gael eu clirio'n rheoleiddiol cyn y gallent fynd yn eu blaenau. Byddai hyn yn gofyn bod Ofwat yn hyderus fod y gofynion rheoleiddiol a sefydlwyd ar ôl ystyried cynigion Kelda wedi'u bodloni.

36. Yn ogystal ag ymateb i'r papur ymgynghorol hwn fe gaiff y cyhoedd gyfle hefyd i fynegi'u barn mewn gwrandawiadau cyhoeddus a gadeirir gan Gadeirydd Pwyllgor Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymru. Bydd cynrychiolwyr o Glas yn cyfrannu at y cyfarfodydd hyn.

## Addasiadau arfaethedig i'r drwydded

37. Mae'r Cyfarwyddwr o'r farn, os aiff y cynigion hyn yn eu blaenau, yna y bydd angen addasiadau i'r drwydded er mwyn sicrhau y gwarchodir buddiannau cwsmeriaid ac fel y gall ef gyflawni'i ddyletswyddau statudol. Trafodir yr addasiadau arfaethedig hyn ymhellach yn adran 4 y papur hwn a rhoddir crynodeb ohonynt yn Atodiad A. Cytunwyd eisoes ar nifer o'r addasiadau arfaethedig gan WPD pan brynodd Hyder ac maent yn dal i fod yn berthnasol i bryniant Dŵr Cymru gan Glas. Nid yw'r rhain wedi'u hymgorffori'n ffurfiol yn y Drwydded eto. Bydd Ofwat yn gofyn am nifer o addasiadau ychwanegol yn sgîl natur benodol pryniant Glas, yn enwedig ar faterion yn codi o gyfansoddiad Glas fel cwmni cyfyngedig trwy warant.

38. At hynny mae Glas yn gofyn am nifer o addasiadau i'r drwydded mewn perthynas â'r mecanweithiau ar gyfer newid terfynau prisiau rhwng yr adolygiadau cyfnodol a amlinellir yn y Drwydded. Maent yn debyg i'r amodau trwydded i rai cwmnïau dŵr eraill. Mae Glas yn credu y byddai hyn yn pwysleisio i ddarpar fenthycwyr mor isel yw'r risg sydd ynghlwm wrth fusnes Dŵr Cymru ac yn ei alluogi i ariannu asedau Dŵr Cymru gyda bondiau gradd buddsoddiad cryf. Amlinellir yr addasiadau i'r drwydded yn Adran 4 dan y pennawd 'Addasiadau ychwanegol i'r drwydded a geisir gan Glas'.

39. Mae Glas wedi cytuno mewn egwyddor ar y rhestr lawn o welliannau y gofynnodd Ofwat amdanynt.

**Byddai Ofwat yn croesawu sylwadau ar y pecyn o addasiadau i'r drwydded a gynigir, ac ynghylch a fernir fod yr addasiadau hyn yn ddigonol i warchod buddiannau cwsmeriaid.**

**Byddai Ofwat yn croesawu sylwadau ar yr addasiadau ychwanegol i'r drwydded a geisir gan Glas.**

## 4. MATERION ALLWEDDOL I'W HYSTYRIED

40. Mae cynigion Glas yn cyflwyno cwestiynau arwyddocaol i'r diwydiant. Ymatebir i'r cynigion hyn yn erbyn y fframwaith a amlinellwyd ar gyfer asesu cynigion ailstrwythuro. Asesir pob achos yn ôl ei deilyngdod ac ni ddylid ystyried unrhyw un achos fel patrwm ar gyfer eraill. Yn wir, yn yr achos hwn, mae nifer o agweddau ar gynigion Glas sydd yn benodol i'r sefyllfa yng Nghymru.

### Manteision a pheryglon i gwsmeriaid

41. Mae angen bodloni Ofwat fod y cynigion er y budd gorau i gwsmeriaid Dŵr Cymru.

42. Yn nhermau manteision i gwsmeriaid, mae Glas wedi datgan ei fod yn credu y bydd mewn sefyllfa i gynnig gostyngiadau mewn biliau dŵr cyn yr adolygiad prisiau nesaf ar raddfa uwch na'r gostyngiadau a amlinellwyd gan Ofwat yn y Penderfyniad Terfynol ar derfynau prisiau. Cred Glas y bydd y gostyngiadau hyn yn bosibl oherwydd y bydd yn gallu ariannu'r asedau dŵr a dŵr gwastraff ar gost is. Ni fydd yn rhaid talu unrhyw ddifidendau i gyfranddalwyr ychwaith. Bwriada Glas ariannu asedau Dŵr Cymru gyda bondiau gradd buddsoddiad o ansawdd credyd uchel, a fydd yn aeddfedu dros gyfnod hir, ar delerau deniadol. At hynny, mae'n credu y gall cwsmeriaid elwa o arbedion effeithlonrwydd a sicrheir drwy weithredu'i strategaeth o fynd at ffynonellau allanol cystadleuol.

43. Yn erbyn y manteision arfaethedig hyn, hoffai Ofwat ddeall i ba raddau (os o gwbl) y gofynnir i gwsmeriaid ymgymryd â pheryglon ychwanegol o gymharu â'r model cyfranddalwyr dan gynigion Glas. Cyfyd y cwestiwn hwn o'r ffaith na fydd perchenogaeth soddgyfrannol ar Glas ac felly nad oes dim cyfalaf cyfranddalwyr i weithredu fel 'clustog' rhwng digwyddiadau niweidiol a ddioddefa'r cwmni a'u heffaith ar gwsmeriaid.

44. Bydd lefel yr adnoddau wrth gefn sydd gan Glas, a thrwy hynny ei allu i lyncu 'siociau cost', yn allweddol wrth benderfynu a yw cwsmeriaid yn wynebu peryglon ychwanegol. Os gall Glas dalu costau annisgwyl (e.e. costau sychder) drwy ei adnoddau wrth gefn, yna ni ofynnir i gwsmeriaid ysgwyddo'r perygl hwn – bydd yr adnoddau wrth gefn yn ffurfio'r glustog a ddarperid gynt gan y cyfranddalwyr. Dylai'r angen am adnoddau wrth gefn fod yn rhan ffurfiol o gyfansoddiad Glas ac wedi'i ymgorffori yn ei Erthyglau Cymdeithasiad. Dywed Glas na wnaiff basio arbedion ymlaen i'w gwsmeriaid hyd nes bydd yn ddoeth gwneud hynny. Rhaid i hyn olygu y bydd ganddo ddigon o adnoddau wrth gefn i ddelio â chostau annisgwyl. Bwriada Glas gronni adnoddau wrth gefn i lefel o £300m erbyn 2005.

45. Yn ôl yr hyn y mae Ofwat yn cael ar ddeall gan yr asiantaethau statws credyd, lle gellir gosod 'ffens derfyn' o gwmpas adnoddau wrth-gefn unigol a dim ond eu defnyddio ar gyfer dibenion penodol (e.e. i dalu llog neu i dalu costau cynyddol) yna bydd hyn yn rhoi lefel fwy o gysur i ddarparwyr dyled na chronfa gyffredinol o adnoddau wrth gefn.

46. Gallai'r pris a delir gan Glas am Ddŵr Cymru a chost ariannu'r pryniant ac unrhyw ofynion buddsoddi i'r dyfodol (cost a bennir i gwmni a ariennir yn gyfangwbl drwy ddyled yn ôl ei statws credyd) fod â goblygiadau hefyd o ran y perygl a wyneba cwsmeriaid dan y cynigion hyn. Tâl gohiriedig yw cyfran fach o'r pris prynu a bydd hyn yn gymorth i gronni adnoddau wrth gefn.

47. Fel rhan o asesiad Ofwat o gynigion Glas, bydd yn cwrdd â'r asiantaethau statws credyd i glywed eu barn hwy. Yn enwedig, bydd Ofwat am ystyried pa mor sensitif yw sefyllfa ariannol Glas i amrywiadau mewn tybiaethau allweddol ac effaith botensial unrhyw israddio arwyddocaol ar ei statws credyd yn y dyfodol.

**Byddai Ofwat yn croesawu sylwadau ynghylch a oes peryglon ychwanegol i gwsmeriaid dan gynigion Glas. Yn arbennig, a yw'r adnoddau wrth gefn y bwriada Glas eu cronni yn ddigonol i ofalu am unrhyw siociau cost arwyddocaol cysylltiedig â swyddogaethau cwmni dŵr (a thrwy hynny ddarparu gwarchodaeth ddigonol i gwsmeriaid rhag ymgymryd â risg ychwanegol)?**

## Ymgynghori â chwsmeriaid

48. Mae Ofwat wedi ystyried yn ofalus i ba raddau ac ym mha fodd y mae'n disgwyl i Glas ymgynghori â chwsmeriaid ar y cynigion hyn.

49. Mae'r cynnig yn golygu newidiadau arwyddocaol i'r model cyfredol sydd yn eiddo buddsoddwyr ac wedi'i ariannu drwy soddgyfrannau. Credwn fod achos dros i Glas ymgynghori'n llawnach â chwsmeriaid nag a wneid, er enghraifft, pan fo cynnig i newid perchenogaeth cwmni dŵr i gwmni soddgyfrannol newydd (fel cynllun RWE i gymryd drosodd Thames Water ccc). Ar gyfer unrhyw gynnig ailstrwythuro, bydd maint a natur yr ymgynghori angenrheidiol yn dibynnu ar fanylion y pryniant ac yn enwedig y graddau y gofynnir i gwsmeriaid ymgymryd â risgiau ychwanegol. Yn y pen draw, gallai'r broses ymgynghori olygu gofyn i gwsmeriaid bleidleisio ar y cynigion (neu fynegi'u barn mewn ffordd arall debyg) er mwyn sefydlu a oes ganddynt gefnogaeth y mwyafrif. Daeth Ofwat i'r casgliad fod angen hyn gyda chynigion Kelda lle cynigiwyd y byddai cwsmeriaid yn dod yn berchenogion uniongyrchol y busnes penodedig.

50. Yn achos cynigion Glas, nid yw Ofwat yn rhagweld y bydd angen pleidlais ffurfiol oherwydd ni fyddai cwsmeriaid yn mynd yn berchenogion y busnes gyda'r cynnydd mewn cyfrifoldebau a risgiau y byddai hynny'n ei olygu. Fodd bynnag, mae'r cynnig y byddai Glas yn ariannu asedau Dŵr Cymru bron yn gyfangwbl drwy ddyled yn un a allai effeithio ar y risgiau a wynebir gan gwsmeriaid, a rhaid i faint yr ymgynghori a wneir gydnabod hyn.

51. Dros yr wythnosau a ddaw, bwriada Glas egluro'i gynlluniau i gwsmeriaid a sefydliadau ledled Cymru a Lloegr, gan gynnwys Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Bwriada gynnal o leiaf ddau wrandawiad cyhoeddus mewn gwahanol leoliadau yn ardal weithredu Dŵr Cymru lle bydd cwsmeriaid yn gallu mynegi eu barn. Bwriada hefyd wneud ymchwil i farn cwsmeriaid – bydd gan Ofwat ran lawn yn yr ymchwil hwn.

**Byddai Ofwat yn croesawu sylwadau ar ba mor foddhaol yw cynigion Glas ar gyfer ymgynghori.**

## Newid perchenogaeth

52. Lle ceir newid perchenogaeth, mae'n rhaid i Ofwat, fel mewn achosion eraill, fod yn fodlon fod y darpar brynwr newydd yn ddarpar brynwr addas i'r busnes penodedig. Rhaid i Glas fod wedi'i staffio'n iawn a bod â'r gallu gweithredol ac ariannol i ymgymryd â'r rôl hon. Cwmni newydd yw Glas heb unrhyw ddiddordebau ar wahân i gymryd meddiant Dŵr Cymru. Bydd Ofwat yn edrych yn fanwl ar y cynllun ariannol sydd yn sylfaen i gynigion Glas er mwyn asesu ei allu ariannol i fod yn berchennog cwmni dŵr sydd ag ymrwymiadau buddsoddiad cyfalaf sylweddol.

53. Mewn cyfuniadau sy'n golygu newid perchenogaeth, mae Ofwat wedi gofyn am addasiadau i'r drwydded er mwyn cryfhau'r darpariaethau 'ffens derfyn' yn nhrwyddedau cwmnïau. Amodau yw'r rhain â'r bwriad o alluogi Ofwat i reoleiddio'r cyfleustod dŵr yn effeithiol o fewn grŵp lletach ac i roi sicrwydd ei fod yn parhau i allu ariannu'i weithgareddau rheoledig. Er na fyddai Dŵr Cymru'n rhan o grŵp estynedig dan gynigion Glas, mae ei strwythur ariannu arfaethedig yn codi bygythiadau potensial cyfatebol i'w sefyllfa ariannol. Bydd Ofwat, felly, yn disgwyl i Ddŵr Cymru gytuno i dderbyn addasiadau i'r drwydded i wahardd codi unrhyw arian ar gyfer y busnes rheoledig ar delerau sydd yn cynnwys cyfamodau gwrth-ddiffygdalu ac iddo gytuno y gwnaiff bob amser gynnal statws credyd corfforaethol o radd buddsoddiad.

**Byddai Ofwat yn croesawu sylwadau ar a ydyw Glas yn berchennog addas a phriodol i Ddŵr Cymru.**

## Cymhellion i effeithlonrwydd

54. Aeth y cwmnïau dŵr yn fwy effeithlon yn dilyn preifateiddio o ganlyniad i gyfuniad o bwysau gan gyfranddalwyr a'r system o reoleiddio ar sail cymhellion y maent y gweithio dani. Dan y fframwaith cymhellion hwn mae Ofwat wedi pennu terfynau prisiau sy'n caniatáu i gwmnïau dalu cost darparu gweithrediadau a gwaith cynnal yn effeithlon ac yn caniatáu elw rhesymol ar gyfalaf. Nid yw Ofwat yn rheoli elw na difidendau. Mae gan gwmnïau'r gallu i gynyddu effeithlonrwydd, ac elw drwy hynny, a rhannu'r elw yma gyda chyfranddalwyr a chwsmeriaid. Rhaid i Ofwat fod yn fodlon na chaiff y cymhellion i effeithlonrwydd eu niweidio gan absenoldeb pwysau cyfranddalwyr.

55. Rhaid i Ddŵr Cymru dan berchenogaeth Glas fod yn gymaradwy â chwmnïau dŵr eraill beth bynnag fo'u strwythur perchnogaeth. Bydd yn parhau i weithredu dan gap prisiau ac yn gorfod cael ei adolygu'n gyfnodol ochr yn ochr â chwmnïau dŵr a ariennir gan soddgyfrannau ac sydd yn eiddo'u buddsoddwyr. Ni fydd Ofwat yn trin busnesau ailstrwythuredig yn wahanol a bydd yn disgwyl i Glas ymlafnio i wella'i berfformiad yn yr un modd â chwmnïau dŵr sy'n eiddo buddsoddwyr.

56. Rhaid i Ofwat ystyried a yw bwrdd Glas yn dal i gael ei yrru gan egwyddorion masnachol. Mewn cwmni cyfyngedig trwy warant, mae rôl aelodau o ran ffurfio

polisi'r bwrdd yn ystyriaeth bwysig. Ni fyddai'n briodol i fuddiannau arbennig unrhyw grŵp o aelodau siapio polisi na chyfeiriad y busnes rheoledig.

57. Rhaid i Ofwat ystyried beth fyddai'r cymhellion i gyfarwyddwyr a rheolwyr Glas sicrhau perfformiad y busnes rheoledig.

58. Ni fyddai Glas yn gallu mynd ar ofyn y marchnadoedd soddgyfrannau ond byddai'n ddibynnol ar y farchnad ddyled i ariannu'r pryniant cychwynnol ac, ar sail barhaus, y rhaglen welliannau gwerth oddeutu £1bn a ganiateir o fewn y terfynau prisiau am y cyfnod 2000 i 2005. Mae Ofwat yn sylweddoli fod y marchnadoedd dyled yn darparu cymhellion i gwmnïau weithredu'n effeithlon a mabwysiadu arferion rheoli da ond cred efallai nad yw'r rhain mor gryf â'r rheini a ddarperir gan gyfranddalwyr. Mae benthycwyr yn awyddus i sicrhau fod eu buddsoddiad a'u llog yn ddiogel ond nid ydynt o reidrwydd yn awyddus i bwyso rheolwyr i geisio gwella effeithlonrwydd ymhellach na hynny. Felly byddai benthycwyr yn darparu pwysau i wella mewn sefyllfa oedd yn dirywio ond nid o reidrwydd mewn un niwtral, a byddent yn annhebygol o yrru perfformiad cwmni fel a wna soddgyfranddalwyr.

59. Cred Ofwat y rhoddid bwrdd a rheolwyr Glas dan bwysau i berfformio drwy wneud datganiad cyhoeddus clir ynglŷn â'i bolisi ar ad-daliadau i gwsmeriaid, yn yr un modd ag y bydd cyfarwyddwyr cwmnïau cyfranddaliadol yn gwneud datganiad clir am eu polisi difidendau. Dylai datganiad o'r fath ganiatáu i gwsmeriaid ffurfio disgwyliad rhesymol ynghylch amseriad, lefel a thwf ad-daliadau yn y dyfodol. Fel gyda chwmnïau sy'n eiddo buddsoddwyr, ni ddylai polisi o'r fath beryglu'r modd yr ariennir y busnes na hyfywdra'i raglen gyfalaf i'r dyfodol.

Mecanweithiau cymell eraill

60. Mae Glas hefyd yn bwriadu cymell cyfarwyddwyr gweithredol a gweithwyr Dŵr Cymru drwy gynllun tâl seiliedig ar gymhellion. Telir iddynt yn ôl strwythur tâl-yn-ôl-perfformiad newydd lle bydd y cyflog yn gysylltiedig â mynegyddion perfformiad y gwasanaeth yn ogystal â mynegyddion cyllidol. Mae Ofwat yn cytuno y dylai Glas a Dŵr Cymru gynnal cynllun cymhellion gyda'r nod o ddenu a chadw tîm rheoli o safon uchel a rhoi cymhelliant cryf iddynt sicrhau effeithlonrwydd yng ngweithrediadau'r busnes. Dylai hyn fod ar gael yn gyhoeddus ac wedi'i ffurfioli yn Erthyglau Cymdeithasiad Glas.

61. Fel a grybwyllwyd eisoes, tâl gohiriedig yw rhan o bris prynu Dŵr Cymru. Bydd y swm terfynol sy'n daladwy i WPD yn dibynnu ar berfformiad Glas a Dŵr Cymru hyd at 2005. Felly, i ryw raddau mae gan WPD ddiddordeb ym mherfformiad tîm rheoli Glas.

62. Byddai Glas yn ymrwymo hefyd i sicrhau fod Dŵr Cymru'n ymgymryd â rhaglen reolaidd o gystadlu yn y farchnad am weithrediadau gyda'r nod o sicrhau arbedion cost wrth weithredu asedau a darparu gwasanaeth i gwsmeriaid. Amlinellir manylion y rhaglen hon yn yr adran ar sicrhau gwasanaethau isod.

**Byddai Ofwat yn croesawu sylwadau ar a fyddai cynigion Glas yn cadw cymhellion i effeithlonrwydd.**

## Trefniadau cyfansoddiadol

### Crynodeb o strwythur Glas

63. Mae Glas, a fyddai'n berchen ar y cyfleustod dŵr rheoledig, wedi'i ymgorffori dan Ddeddf Cwmnïau 1985. Mae ei Femorandwm a'i Erthyglau Cymdeithasiad yn cyfyngu ei bwrpas i ddarparu dŵr a gwasanaethau dŵr gwastraff yng Nghymru a Lloegr. Awgryma Glas fod i hyn y fantais o ddatrys rhywfaint o'r gwrthdaro buddiannau rhwng ccc rhestredig a'i is-gwmni busnes dŵr rheoledig. Fodd bynnag, câi Glas ei ariannu'n gyfangwbl drwy ddyled, a thalu'r baich dyled sylweddol fyddai'r alwad gyntaf ar incwm Glas Cymru. Byddai Dŵr Cymru'n mynd yn is-gwmni yn gyfangwbl ym meddiant Glas.

64. Mae Glas yn rhagweld penodi pedwar i chwech o gyfarwyddwyr anweithredol a thri chyfarwyddwr gweithredol, i'w penodi gan y Cadeirydd i ddechrau. Fel cwmni cyfyngedig trwy warant mae Glas yn eiddo i'w aelodau yn hytrach na'i gyfranddalwyr. Bydd aelodau'n cyflawni rhai o ddyletswyddau cyfranddalwyr i'r graddau fod ganddynt ddyletswyddau i werthuso perfformiad bwrdd Glas a'i ddal i gyfrif. At hynny mae gan aelodau bwerau i benodi a diswyddo cyfarwyddwyr. Bydd pob aelod yn ymrwymo i hyrwyddo amcanion Glas Cymru fel y'u hamlinellir ym Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasiad y cwmni. Fodd bynnag, nid oes ganddynt unrhyw fuddiant ariannol yn Glas ac ni fyddant yn derbyn difidendau. Yn hyn o beth gallai aelodau roi llai o bwysau ar gyfarwyddwyr a rheolwyr i berfformio nag a wnâi cyfranddalwyr.

65. Rhagwêl Glas uchafswm o 200 o aelodau. Penodir y rhain gan fwrdd Glas ar ôl eu henwebu gan banel annibynnol. Mae Glas wedi dweud y bydd y panel hwn yn gweithredu proses ddewis seiliedig ar 'egwyddorion Nolan'. Mae'r egwyddorion hyn, a godwyd o Adroddiad Cyntaf Pwyllgor Nolan ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (Mai 1995), yn amlinellu'r safonau y dylid cadw atynt wrth benodi i gyrff cyhoeddus. Yn fras, dywedant y dylid penodi ar sail yr egwyddorion canlynol; penodi yn ôl teilyngdod; archwiliad annibynnol; cyfle cyfartal; gonestrwydd aelodau; proses benodi agored a thryloyw; a phroses gymesur â'r cyfrifoldebau dan sylw.

### Cwestiynau

66. Mae Ofwat yn awyddus iawn i fwrdd Dŵr Cymru fod o safon uchel ac iddo fod â chymhelliant i gyflawni a bod yn atebol am weithrediad effeithlon ei fusnes.

67. Rhaid i fyrddau Glas a Dŵr Cymru ill dau allu cael eu hamnewid os ceir perfformiad gwael. Mae'n bwysig hefyd fod Glas yn gwbl annibynnol oddi wrth Dŵr Cymru a WPD o ddechrau'r negodi gyda WPD dros y pris a gynigir am Ddŵr Cymru, a bod hynny'n cael ei weld.

68. Ni fyddai'n briodol i fuddiannau unrhyw grŵp o aelodau siapio polisi neu gyfeiriad y busnes rheoledig. Mae Glas wedi sefydlu trefn lle bydd aelodau'n

ymgymryd â phroses cyn-dewis ger bron panel annibynnol cyn cael eu henwebu i fwrdd Glas i'w penodi. Bydd Ofwat yn ystyried a yw'r drefn hon yn ddigon cadarn i sicrhau na all yr aelodaeth gael ei chipio gan grwpiau buddiannau arbennig dros amser. Ar ben hynny, bydd yn ystyried yn union faint o ddylanwad ymarferol y gallai'r corff aelodau hwn ei gael ar bolisïau Glas (a thrwy hynny Ddŵr Cymru). Mae gan Ddŵr Cymru amod trwydded eisoes sy'n mynnu y dylai'r bwrdd weithredu'n annibynnol ar ei riant bob amser a thros ei fuddiannau ei hun.

69. Fel isafswm, er mwyn cynnal ffocws ar y busnes rheoledig ac i ffurfioli egwyddorion llywodraethu da, mae Ofwat yn gofyn am addasu trwydded Dŵr Cymru er mwyn mynnu:

- bod bwrdd Dŵr Cymru'n cydymffurfio ag Egwyddorion Llywodraethu Da a Chôd Ymarfer Gorau (neu unrhyw ddogfen sy'n ei olynu) fel y'i cymeradwywyd i ddibenion gofynion Awdurdod Rhestru'r DU ar gyfer cwmnïau rhestredig;

- bod Glas (drwy ymrwymiad y gellir ei orfodi'n gyfreithiol) yn ymgynghori ag Ofwat ar unrhyw newidiadau arfaethedig i'w Femorandwm ac Erthyglau Cymdeithasiad;

- bod Glas (drwy ymrwymiad y gellir ei orfodi'n gyfreithiol) yn darparu'r cyfryw wybodaeth ag y gofynno'r Cyfarwyddwr yn rhesymol amdani ynglŷn â'i weithgareddau a'i gyllid;

- bod Glas (drwy ymrwymiad y gellir ei orfodi'n gyfreithiol) yn darparu gwybodaeth angenrheidiol i Ddŵr Cymru i ganiatáu iddo gydymffurfio â'i Drwydded;

- bod Glas (drwy ymrwymiad y gellir ei orfodi'n gyfreithiol) yn ymatal rhag unrhyw weithredu a fyddai'n peri i Ddŵr Cymru dorri amodau ei Drwydded;

- bod bwrdd Dŵr Cymru'n cynnwys mwyafrif o gyfarwyddwyr anweithredol.

70. Ar ben hynny, mae Ofwat o'r farn ei bod yn briodol diwygio'r drwydded i wahardd Dŵr Cymru rhag cyflawni gweithgareddau ar wahân i'r rheini sy'n ofynnol gan ymgymerwr dŵr a charthffosiaeth.

**Byddai Ofwat yn croesawu sylwadau ar y trefniadau llywodraethu a gynigiwyd gan Glas ac yn enwedig sylwadau parthed a fydd y rhain yn sicrhau y bydd Glas wedi'i ffocysu'n fasnachol er mwyn gyrru perfformiad yn y busnes rheoledig.**

**Parthed rôl aelodau, byddai Ofwat yn croesawu sylwadau ynghylch a oes cymhellion digonol i aelodau ddal Bwrdd Dŵr Cymru i gyfrif ac a yw'r broses ddewis aelodaeth yn ddigon cadarn i atal buddiannau arbennig rhag ei chipio.**

## Sicrhau gwasanaethau

71. Dan gynigion Glas, gwahenir perchenogaeth asedau Dŵr Cymru oddi wrth weithrediad yr asedau hynny. Dros gyfnod o amser bydd Glas yn gweithredu

strategaeth sicrhau lle bydd yn aildendro gweithrediad beunyddiol ei asedau a'i ddarpariaeth gwasanaeth dan gyfres o gontractau cystadleuol.

72. Mae Ofwat yn awyddus i Ddŵr Cymru o dan strategaeth o'r fath fod mewn sefyllfa i gyflawni'i ddyletswyddau. At hynny, rhaid ymgymryd â'r broses dendro mewn modd fydd yn sicrhau cae chwarae gwastad bob amser. Mynegodd y DWI, yng nghyd-destun cynigion Kelda, bryderon ynglŷn â'r cyfryw strategaeth gan gynnwys pryder i sicrhau na chyfaddawdir ei allu i erlyn Glas am ddiffygion yn ansawdd dŵr pan ddefnyddir ffynonellau allanol i'r graddau a gynigir. Mae Ofwat wedi bod yn cydweithio â'r DWI ac AyrA i ddatblygu amod trwydded yn ymwneud â sicrhau gwasanaethau gyda'r nod o ateb pryderon Ofwat a'r rheoleiddwyr ansawdd.

73. Dan gynigion Glas, mae Ofwat o'r farn y byddai'n briodol i Ddŵr Cymru gytuno ar amod trwydded newydd ar sicrhau gwasanaethau, lle byddai'n rhaid iddo gyflwyno Cynllun Sicrhau Gwasanaethau i'r Cyfarwyddwr. Dylai'r Cynllun Sicrhau Gwasanaethau hwn gynnwys:

- Esboniad o sut y mae Dŵr Cymru'n bwriadu cadw rheolaeth briodol ac effeithiol dros weithrediadau'r darpar gontractwr, yn enwedig mewn perthynas â'i ofynion rheoleiddiol parthed ansawdd dŵr yfed a gwarchod yr amgylchedd.

- Esboniad o sut y cynhelir asedau'n briodol yng ngoleuni'r strategaeth sicrhau gwasanaethau a gynigir.

- Asesiad o bosibilrwydd presennol herio'r marchnadoedd cysylltiedig â phob un o'r gweithgareddau rheoledig yn ardal gyflenwi Dŵr Cymru a'r rhanbarthau o'i mewn a sut y mae'r cymysgedd contractau a roddir allan i dendr yn adlewyrchu'r asesiad hwn.

- Amserlen Dŵr Cymru ar gyfer ymgymryd â'r tendro hwn.

74. Yn ychwanegol, mae Ofwat o'r farn ei bod yn briodol ceisio cytundeb ar amod newydd yn gwahardd Dŵr Cymru rhag dirprwyo cyfrifoldeb am berfformiad priodol ei swyddogaethau statudol i unrhyw barti arall. Gallai'r amod hwn hefyd atal Dŵr Cymru, pe câi ei erlyn dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr (neu reoliadau a wnaed dani), rhag cynnig amddiffyniad o ymroddiad dyledus, ac eithrio lle buasai'r amddiffyniad hwnnw ar gael iddo yn absenoldeb unrhyw drefniadau contractio.

75. Mae Ofwat, yng nghyd-destun cynigion WPD i ddefnyddio ffynonellau allanol cystadleuol ar gyfer darparu gwasanaethau i Ddŵr Cymru, yn datblygu canllawiau ar y mesurau rheoli mewnol lleiaf y mae angen eu cael a'u defnyddio mewn cwmni dŵr er mwyn sicrhau a dangos ei fod yn cwrdd â'i ddyletswyddau cyfreithiol ac y gall gyflawni'i swyddogaethau. Yn wyneb cynigion tebyg Glas sy'n cynnwys gradd sylweddol uwch o ddefnyddio ffynonellau allanol na'r hyn a wneir ar hyn o bryd gan gwmnïau dŵr, cred Ofwat y byddai'n dal i fod yn briodol i Ddŵr Cymru gydymffurfio â'r canllawiau hyn.

76. Oherwydd y pwysigrwydd i Ddŵr Cymru fod â rheolaeth dros ei swyddogaethau, mae Ofwat o'r farn ei bod yn briodol cryfhau'r amod trwydded presennol sy'n mynnu bod gan gwmnïau dŵr adnoddau ariannol a rheolaethol digonol a'u bod yn tystio i hyn yn ffurfiol i Ofwat. Byddai hyn yn golygu fod gofyn i Ddŵr Cymru sicrhau, yn ogystal â bod ganddo adnoddau ariannol a rheolaethol digonol, fod ganddo systemau cynllunio a rheoli digonol i gyflawni'i weithgareddau rheoledig.

**Byddai Ofwat yn croesawu sylwadau ynghylch a yw'r addasiadau hyn i'r drwydded, o'u cymryd fel pecyn, yn darparu mesurau digonol i sicrhau na pheryglir ansawdd dŵr yfed a'r amgylchedd dan gynigion Glas ac na chyfaddawdir gallu'r DWI ac AyrA i erlyn ymgymerwyr ar achosion yn ymwneud ag ansawdd dŵr.**

## Gwybodaeth gymharol

77. Mae Ofwat yn rhoi cryn bwys ar ei allu i ddefnyddio gwybodaeth gymharol i gynorthwyo rheoleiddiad y diwydiant dŵr. Byddai'r cynnig yn creu math newydd o gymharydd ar gyfer llunio dyfarniadau rheoleiddiol. Fodd bynnag, er mwyn cynnal yr wybodaeth a fyddai ar gael ar gyfer asesiadau cymharol, byddai Ofwat yn disgwyl i Ddŵr Cymru gytuno ag amodau trwydded fyddai'n mynnu ei fod:

- yn cyhoeddi'n gyfnodol wybodaeth ynglŷn â'i sefyllfa ariannol a masnachol, a chanlyniadau ei weithrediadau, yn unol â'r Rheolau Rhestru i gwmni â chyfranddaliadau cyffredin a restrir ar Gyfnewidfa Stoc Llundain neu gyfnewidfa stoc fawr gydnabyddedig;

- yn sicrhau wastad bod offeryn ariannol Dŵr Cymru (bond neu flaengyfran) wedi'i restru ar Gyfnewidfa Stoc Llundain neu gyfnewidfa stoc fawr gydnabyddedig.

## Addasiadau ychwanegol i'r drwydded a geisir gan Glas

78. Mae Glas yn ceisio nifer o addasiadau trwydded i'r mecanweithiau ar gyfer ailbennu terfynau prisiau rhwng adolygiadau a amlinellir yn Nhrwydded Dŵr Cymru fel y bydd yn gyson ag eiddo rhai cwmnïau dŵr eraill. Nod y rhain yw ehangu'r amgylchiadau lle gall Dŵr Cymru ofyn am benderfyniad interim ar derfynau prisiau ac addasu'r prawf llog a ddefnyddir mewn penderfyniadau interim i adlewyrchu'r ffaith y byddai Dŵr Cymru'n cael ei ariannu'n gyfangwbl drwy ddyled. Cred Glas y byddai hyn yn pwysleisio i ddarpar fenthycwyr natur risg isel busnes Dŵr Cymru ac yn ei alluogi i ariannu asedau Dŵr Cymru gyda bondiau gradd buddsoddiad cryf. Dyma'r addasiadau y gofynnir amdanynt:

- Ailgynnwys newid perthnasol mewn amgylchiadau ar gyfer chwyddiant prisiau cyfalaf. Byddai hyn yn caniatáu i Ddŵr Cymru ofyn am benderfyniad interim petai chwyddiant prisiau cyfalaf yn achosi cynnydd mewn costau sy'n torri'r trothwy defnyddioldeb;

- Ailgynnwys y "cymal llongddrylliad". Byddai'r cymal hwn yn caniatáu i Ddŵr Cymru ofyn am benderfyniad interim mewn unrhyw amgylchiadau a

gafodd neu a allai gael effaith andwyol sylweddol ar ei fusnes rheoledig ac na allasid ei osgoi drwy reolaeth ofalus; ac

- Addasu'r prawf llog a ddefnyddir mewn penderfyniadau interim i adlewyrchu'r ffaith y bydd asedau Dŵr Cymru wedi'u hariannu'n gyfangwbl drwy ddyled.

79. Mae'r newid perthnasol mewn amgylchiadau ar gyfer chwyddiant prisiau cyfalaf a'r cymal 'llongddrylliad', fodd bynnag, yn gymesur ac yn caniatáu i gwsmeriaid fanteisio ar effeithiau ffafriol hefyd.

## 5. Y CAMAU NESAF

80. Bydd y Cyfarwyddwr yn rhoi ystyriaeth lawn i ymatebion i'r papur ymgynghorol hwn wrth benderfynu a ddylai'r cynigion a ddisgrifir yn y papur hwn gael cydsyniad rheoleiddiol yn ei farn ef, gyda neu heb addasiadau. Bydd yn cymryd i ystyriaeth y ffaith fod Glas wedi mynegi ei fod yn derbyn yr addasiadau i drwydded Dŵr Cymru a ddisgrifir uchod. Cyhoeddir penderfyniadau'r Cyfarwyddwr ac anfonir copi at bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad.

81. Wedyn, os bydd angen, bydd y Cyfarwyddwr yn hysbysu'r Cyfarwyddwr Cyffredinol dros Fasnachu Teg (DGFT). Os, yn sgîl cyngor gan y DGFT, y daw'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant i'r casgliad fod y pryniant arfaethedig hwn yn sefyllfa o gyfuno dan ddarpariaethau Deddf Masnachu Teg 1973, gallai ei gyfeirio at y Comisiwn Cystadleuaeth.

82. Os â'r pryniant yn ei flaen, bydd y Cyfarwyddwr yn dilyn y drefn statudol ar gyfer diwygio Trwydded Dŵr Cymru i gynnwys yr addasiadau a amlinellir yn y papur hwn fel y'u diwygiwyd ar ôl ymgynghori. Mewn achosion blaenorol, mae wedi cael sicrwydd gan y cynigiwr y bydd y cyfleustod y ceisir ei brynu (sef Dŵr Cymru yn yr achos hwn), os bydd cynnig y cynigiwr yn llwyddiannus, yn ymddwyn fel petai'r addasiadau hynny eisoes mewn grym yn y cyfnod cyn iddynt gael eu gwneud.

Croesewir sylwadau ar y cwestiynau a godir yn y papur hwn a dylid eu hanfon at:

Keith Mason
Office of Water Services
Centre City Tower
7 Hill St
Birmingham B5 4UA

e-bost: keith.mason@ofwat.gsi.gov.uk
Ffacs: 0121 625 3609

**Dylai sylwadau gyrraedd Ofwat erbyn 5:00pm ar 18 Rhagfyr 2000**

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael ar wefan Ofwat:
http://www.ofwat.gov.uk

Dylai ymatebwyr nodi'n glir pwy ydynt a pha sefydliadau a gynrychiolant. Caiff pob ymateb, ar ddiwedd yr ymgynghoriad, ei osod yn llyfrgell Ofwat oni farciwyd yn glir ei fod yn gyfrinachol.

Mae copi o'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

## ATODIAD A

### Pryniant arfaethedig Dŵr Cymru gan Glas Cymru – Crynodeb o'r addasiadau arfaethedig i'r drwydded (a gofynion eraill)

### Sicrhau gwasanaethau

- Amod trwydded newydd ar sicrhau gwasanaethau, yn dweud y byddai'n rhaid i Ddŵr Cymru gyflwyno Cynllun Sicrhau Gwasanaethau i'r Cyfarwyddwr.

- Amod newydd yn gwahardd Dŵr Cymru rhag dirprwyo cyfrifoldeb am berfformiad priodol ei swyddogaethau statudol i unrhyw barti arall. Byddai'r amod hwn hefyd yn atal Dŵr Cymru, pe câi ei erlyn dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr (neu reoliadau a wnaed dani), rhag cynnig amddiffyniad o ymroddiad dyledus, ac eithrio lle buasai'r amddiffyniad hwnnw ar gael iddo yn absenoldeb unrhyw drefniadau contractio.

- Cryfhau'r amod trwydded presennol F6 sy'n mynnu bod rhaid i gwmnïau dŵr fod ag adnoddau ariannol a rheolaethol digonol a'u bod yn tystio i hyn yn ffurfiol i Ofwat. Diwygio hyn fel ei bod yn ofynnol i Ddŵr Cymru sicrhau, yn ogystal â bod ganddo adnoddau ariannol a rheolaethol digonol, fod ganddo systemau cynllunio a rheoli digonol i gyflawni'i weithgareddau rheoledig.

- Canllawiau ar fesurau rheoli mewnol. Bydd y Cyfarwyddwr yn disgwyl i Ddŵr Cymru ddilyn y canllawiau a gyhoeddir ganddo, yn pennu'r mesurau rheoli mewnol lleiaf y mae angen eu cael a'u defnyddio mewn cwmni dŵr a charthffosiaeth er mwyn sicrhau a dangos ei fod yn cwrdd â'i ddyletswyddau cyfreithiol ac y gall gyflawni'i swyddogaethau.

### Cryfhau darpariaethau ffens derfyn

- Amod trwydded yn gwahardd codi unrhyw gyllid ar gyfer y busnes rheoledig ar delerau sy'n cynnwys cyfamodau gwrth-ddiffygdalu.

- Amod trwydded y dylai pob cyfleuster benthyca a ddarperir iddo sicrhau statws gradd buddsoddiad.

### Llywodraethu corfforaethol

- Amod trwydded yn mynnu bod bwrdd Dŵr Cymru'n cydymffurfio ag Egwyddorion Llywodraethu Da a Chôd Ymarfer Gorau (neu unrhyw ddogfen sy'n ei olynu) fel y'i cymeradwywyd i ddibenion Rheolau Rhestru Awdurdod Rhestru'r DU.

- Dŵr Cymru i gael ymrwymiad y gellir ei orfodi'n gyfreithiol gan Glas y bydd Glas yn ymgynghori ag Ofwat ar unrhyw newidiadau arfaethedig i'w Femorandwm ac Erthyglau Cymdeithasiad.

- Dŵr Cymru i gael ymrwymiad y gellir ei orfodi'n gyfreithiol gan Glas y bydd Glas yn darparu'r cyfryw wybodaeth ag y gofynno'r Cyfarwyddwr yn rhesymol amdani ynglŷn â gweithgareddau a chyllid Glas Cymru.

- Dŵr Cymru i gael ymrwymiad y gellir ei orfodi'n gyfreithiol gan Glas y bydd Glas yn darparu'r wybodaeth angenrheidiol iddo i ganiatáu i Ddŵr Cymru gydymffurfio â'i Drwydded.

- Dŵr Cymru i gael ymrwymiad y gellir ei orfodi'n gyfreithiol gan Glas y bydd Glas yn ymatal rhag unrhyw weithredu a fyddai'n peri i'r cwmni dŵr dorri amodau ei Drwydded.

- Amod trwydded yn ei gwneud yn ofynnol bod bwrdd Dŵr Cymru'n cynnwys mwyafrif o gyfarwyddwyr anweithredol.

- Amod trwydded yn gwahardd Dŵr Cymru rhag cyflawni gweithgareddau ar wahân i'r rheini sy'n ofynnol gan ymgymerwr dŵr a charthffosiaeth.

## Gwybodaeth marchnad ac arall

- Amod trwydded yn mynnu bod Dŵr Cymru'n cyhoeddi gwybodaeth ynglŷn â'i sefyllfa ariannol a masnachol a chanlyniadau ei weithrediadau yn unol â'r Rheolau Rhestru i gwmni â chyfranddaliadau cyffredin a restrir ar Gyfnewidfa Stoc Llundain.

- Amod trwydded yn mynnu bod Dŵr Cymru'n sicrhau bob amser fod offeryn ariannol Dŵr Cymru (naill ai bond gyda chwpon yn nodi statws, neu flaengyfran) wedi'i restru.

## Terfynau prisiau

- Mae Glas yn gofyn am addasiadau i'r mecanweithiau ar gyfer gosod terfynau prisiau rhwng yr adolygiadau cyfnodol yn ei Drwydded:

    - ailgynnwys newid amgylchiadau perthnasol cymesur ar gyfer chwyddiant prisiau cyfalaf (RCC6 gynt);
    - ailgynnwys "cymal llongddrylliad" (B.14.3);
    - addasu'r prawf llog (B14.2.9 (b)) mewn penderfyniadau interim i adlewyrchu'r ffaith y bydd asedau Dŵr Cymru wedi'u hariannu 100% drwy ddyled.

## Gofynion cyfansoddiad Glas i'w hadlewyrchu yn ei Erthyglau Cymdeithasiad

- Dylai'r gofyniad am adnoddau wrth gefn fod yn rhan ffurfiol o gyfansoddiad Glas a chael ei ymgorffori yn ei Erthyglau Cymdeithasiad;

- Dylai Glas a Dŵr Cymru gynnal cynllun cymhelliant gyda'r nod o ddenu a chadw tîm rheoli o safon uchel ac i roi cymhellion cryf iddynt sicrhau effeithlonrwydd mewn gweithrediadau busnes. Dylai hyn gael ei wneud yn gyhoeddus a'i ffurfioli yn Erthyglau Cymdeithasiad Glas.